**CORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU**

**DEDDF ADNODDAU DŴR 1991**

# Is-ddeddfau Brys Gwialen a Llinyn Afon Hafren (Eogiaid) (Cymru) 2021

Mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru, wrth ymarfer ei bŵer o dan adran 210 a pharagraff 6(1)(b) o Atodlen 25 ac Atodlen 27 i Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991, a'r holl bwerau eraill sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, yn gwneud yr is-ddeddfau brys canlynol er mwyn gwarchod a chadw pysgodfeydd o fewn afon Hafren yng Nghymru.

**Is-ddeddf 1 – Teitl**

Gellir galw'r is-ddeddfau hyn yn Is-ddeddfau Brys Gwialen a Llinyn Afon Hafren (Eogiaid) (Cymru) 2021.

**Is-ddeddf 2 – Defnydd**

(a) Bydd yr is-ddeddfau hyn yn berthnasol i'r rhan honno o afon Hafren a'i hisafonydd yng Nghymru lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â physgodfeydd.

(b) Daw'r is-ddeddfau hyn i rym ar 1 Mawrth 2021.

**Is-ddeddf 3 – Dehongliad**

Yn yr is-ddeddfau hyn, oni bai fod y cyd-destun yn mynnu'n wahanol:

(a) Ystyr "Cyfoeth Naturiol Cymru" yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru.

(b) Ystyr “afon Hafren” yw ardal dalgylch afon Hafren a'r holl gyrsiau dŵr sy'n draenio neu sy'n llifo iddi, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, sydd yng Nghymru yn unig.

(c) Ystyr “eog” yw rhywogaeth “eog yr Iwerydd” (*Salmo salar*).

(d) Mae "Cymru" yn golygu Cymru gyfan, ynghyd â'r rhannau hynny o'r môr tiriogaethol sy'n gyfagos â Chymru hyd at chwe milltir o'r gwaelodlinau y mae lled y môr hwnnw'n cael ei fesur ohonynt.

(e) Ac eithrio fel y darperir uchod neu lle mae'r cyd-destun yn mynnu'n wahanol, bydd yr holl eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn yr is-ddeddfau hyn yn cael eu diffinio gan yr ystyr a roddir iddynt gan Ddeddf Eogiaid a Physgodfeydd Dŵr Croyw 1975, Deddf Adnoddau Dŵr 1991 a Deddf yr Amgylchedd 1995 neu unrhyw addasiadau statudol neu ailddeddfiad ohonynt.

**Is-ddeddf 4 – Gwahardd cadw eogiaid o afon Hafren a ddaliwyd gan wialen a llinyn**

(a) Ni chaniateir i neb dynnu eog o'r dŵr a ddaliwyd gan wialen a llinyn yn afon Hafren, na'i gadw.

(b) Rhaid dychwelyd unrhyw eog a dynnir o'r dŵr gan wialen a llinyn i'r afon ar unwaith, yn y fan y'i daliwyd, gan achosi'r niwed lleiaf posibl iddo.

**Is-ddeddf 5 – Cyfyngiad Tymor Cynnar ar Ddull Pysgota Eogiaid â Gwialen a Llinyn**

Bydd unrhyw unigolyn sy'n pysgota am, sy'n cymryd neu sy'n gwneud ymgais i bysgota am neu wneud ymgais i gymryd unrhyw eog â gwialen a llinyn drwy unrhyw ddull ar wahân i bryf artiffisial neu lith pysgota artiffisial cyn 16 Mehefin o fewn unrhyw flwyddyn galendr yn euog o drosedd.

**Is-ddeddf 6 – Esemptiadau**

Ni fydd yr is-ddeddfau hyn yn berthnasol i gyflogai Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gweithio yn ei rinwedd swyddogol neu i unrhyw unigolyn sydd, gyda chaniatâd ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn unol ag unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y caniatâd hwnnw, yn cynnal gwaith sy'n ymwneud â chynnal, gwella neu ddatblygu pysgodfeydd neu at ddibenion gwyddonol.

**TYSTIED HYN OLL GAN SÊL GYFFREDIN**
**CORFF CYFOETH NATURIOL CYMRU**

A roddwyd ar y/yr 24 diwrnod o Chwefror 2021

H82A

**LLOFNODWR AWDURDODEDIG** S. Abbey